# CYLCHLYTHYR

*Lleihau'r perygl o lifogydd yn Aberaeron gyda'n gilydd*

**Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron**

**Rhif 3 Awst 2024**



## Croeso

Dyma ein trydydd cylchlythyr ar gyfer Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron sy'n ceisio rhoi trosolwg o'r gwaith sydd ar ddod.

Os hoffech chi weld ein cylchlythyrau sganiwch:

**Saesneg:** **Cymraeg:**



*Adeiladu wal deras Pwll Cam yn barod ar gyfer y cladin gwaith maen a'r paneli gwydr*

Bydd BAM yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion ac AtkinsRéalis Design Consultancy i gyflawni Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron.

## Rheoli Traffig a Cherddwyr


Gwybodaeth

Rydym yn gwneud pob ymdrech i gadw i'r lleiaf posibl ein heffaith ar drigolion ac ymwelwyr ag Aberaeron wrth i ni weithio ar yr amddiffynfeydd rhag llifogydd. Ond mae'n rhaid rheoli traffig a cherddwyr er mwyn i ni gael mannau gweithio diogel ac amddiffyn y cyhoedd. Bydd y cyfyngiadau dros dro yn parhau yn eu lle tan ddiwedd y prosiect.

Bydd y gwyriad dros dro i lwybr yr arfordir trwy Aberaeron yn parhau yn ei le hyd nes y bydd y prosiect wedi'i gwblhau. Mae'r diagram isod yn dangos y gwyriad. Mae'r gwyriad yn mynd i fyny i Heol yr Odyn o Lôn yr Hafan ac yn troi i Faes yr Heli hyd at swyddfeydd Penmorfa Cyngor Sir Ceredigion trwy'r maes parcio i'r chwith o gompownd safle adeiladu BAM.



*Pen Cei – Sylfaen ffurfio ar gyfer y wal newydd*



## Beth ydym ni wedi bod yn ei wneud?

- Rydym yn parhau i dderbyn cyflenwadau cerrig ar y môr a'u storio ar hyd Traeth y De a Morglawdd y Gogledd.
- Tynnu grwynau o Draeth y De.
- Dechrau adeiladu Morglawdd y Gogledd.
- Dechrau ailadeiladu wal gynnal gerrig Traeth y De.
- Draenio Harbwr Mewnol Pwll Cam a chreu mynediad.
- Cloddio ac adeiladu slab sylfaen ar gyfer gât yr harbwr newydd.
- Dechrau cloddio ac adeiladu wal deras Pwll Cam.
- Growtio waliau harbwr Pen Cei.
- Dymchwel Pen Pier y De.
- Cloddio ac adeiladu wal lifogydd Pen Cei.
- Cloddio ac adeiladu sylfaen goncrit newydd ar gyfer Pen Pier y De.
- Adeiladu trawst capio newydd wal Afon Aeron.
- Dechrau gosod grwynau pren newydd yn Nhraeth y De.
- Dechrau adeiladu waliau ategwaith gât yr harbwr Pwll Cam.

## Gwaith allweddol sydd ar ddod

**Awst:**

- Dechrau cladin gwaith maen yn nheras Pwll Cam, wal Afon Aeron a waliau Pen Cei.
- Adeiladu Morglawdd y Gogledd.
- Ailadeiladu wal gynnal gerrig Traeth y De.
- Adeiladu slab sylfaen ac ategwaith gât yr harbwr newydd.
- Cloddio ac adeiladu sylfaen newydd Pier y De.
- Adeiladu wal goncrit gyfnerthedig Pen Cei.
- Dechrau gosod grwynau pren.

**Medi:**

- Dechrau cladin gwaith maen yn nheras Pwll Cam, wal Afon Aeron a waliau Pen Cei.
- Adeiladu Morglawdd y Gogledd.
- Ailadeiladu wal gynnal gerrig Traeth y De.
- Adeiladu ategweithiau gât yr harbwr newydd.
- Cloddio ac adeiladu sylfaen newydd Pier y De.
- Cau'r ffordd yn llawn ym Mhen Cei a gosod draeniad prif lein.
- Adeiladu wal goncrit gyfnerthedig Pen Cei.
- Gosod grwynau pren.
- Dechrau gosod paneli gwydr – Afon Aeron, teras Pwll Cam.

**Hydref:**

- Cladin gwaith maen yn nheras Pwll Cam, wal Afon Aeron a waliau Pen Cei.
- Adeiladu Morglawdd y Gogledd.
- Ailadeiladu wal gynnal gerrig Traeth y De.
- Adeiladu ategweithiau gât yr harbwr newydd.
- Cwblhau adeiladu sylfaen newydd Pier y De.
- Cau'r ffordd yn llawn ym Mhen Cei a gosod draeniad prif lein.
- Adeiladu wal goncrit gyfnerthedig Pen Cei.
- Gosod grwynau pren.
- Gosod paneli gwydr – teras Pwll Cam a Phen Cei.

## Buddion ac Ymgysylltu â'r Gymuned

### Digwyddiad Galw Heibio Cyhoeddus

### Prosiect Amddiffyn Arfordir Aberaeron

bam

Gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i'n trydydd digwyddiad 'Galw Heibio Cyhoeddus'.

**2 Hydref 2024**
**12:00-2:00pm**
**Neuadd y Sir Aberaeron**

Dewch draw os hoffech ddysgu mwy am y prosiect neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau yr hoffech eu codi gyda'n Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd.

Bydd y cynllun £31m yn cael ei ariannu drwy gyfraniad o £26.85m gan Raglen Rheoli Risgiau Arfordirol Llywodraeth Cymru, ynghyd â chyfraniad o £4.74m gan Gyngor Sir Ceredigion.

Making Possible



# Buddion ac Ymgysylltu â'r Gymuned

## Cartref Preswyl Min y Môr

Cafodd preswylwyr Cartref Preswyl Min y Môr eu gwahodd i fynychu cyflwyniad ar y prosiect amddiffyn yr arfordir, lle cawsant gyfle i ddysgu am y prosiect a gofyn cwestiynau.





## Cymdeithas Aberaeron




Cafodd Gwen Clements, Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd / Aelod Corfforaethol o'r Gymdeithas ei gwahodd gan Gymdeithas Aberaeron i'w chyfarfod cyffredinol blynyddol i roi trosolwg o gynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron. Roedd aelodau'r Gymdeithas yn awyddus i ddysgu am y prosiect a manteisiwyd ar y cyfle i godi cwestiynau a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

Cynhyrchodd BAM gyfres o ffotograffau hanesyddol o harbwr Aberaeron o'r detholiad helaeth sydd ar wefan y Gymdeithas. Mae'r ffotograffau wedi cael eu harddangos yn Neuadd y Sir Aberaeron er mwyn i ymwelwyr ac aelodau'r cyhoedd gael cipolwg ar hanes harbwr Aberaeron.

## Ysgol Gynradd Aberaeron

Aeth Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd BAM a Llysgenhadon STEM i ymweld ag Ysgol Gynradd Aberaeron i godi ymwybyddiaeth am y peryglon ar ac o gwmpas safleoedd adeiladu. Mae safle compownd BAM wedi'i leoli drws nesaf i faes chwarae'r ysgol, felly mae'n bwysig bod pawb yn deall peryglon safle adeiladu a'r ardal gyfagos.

Gosododd BAM her i'r disgyblion (4-11 oed) i greu poster yn tynnu sylw at beryglon adeiladu. Mae'r posteri buddugol wedi cael eu harddangos yn Harbwr Pwll Cam yng nghanol y dref.






## Buddion ac Ymgysylltu â'r Gymuned

### Ymweliadau ag Ysgolion Lleol




Mae BAM wedi bod yn ymgysylltu ag ysgolion a grwpiau lleol i siarad am yrfaoedd mewn peirianneg sifil a'r llwybrau a chyfleoedd gwahanol sydd ar gael. Cafodd pob sesiwn ei chyflwyno gan beiriannydd cymwys a phrentis sy'n cael eu cyflogi gan BAM ac sy'n gweithio ar brosiect Amddiffyn Arfordir Aberaeron. Dysgodd myfyrwyr am y llwybrau gwahanol i beirianneg sifil a'r cymwysterau gofynnol.

Mae BAM wedi rhoi cyflwyniadau i:

- Dosbarth TGAU Peirianneg, Adeiladu a Dylunio Aberaeron
- Grŵp Addysg Gartref Ceredigion
- Grŵp Ieuenctid Ray Ceredigion.

### Cipolwg o'r adborth a gafwyd gan y gymuned leol

*"Mae gweithwyr BAM sy'n gweithio ar wal yr harbwr y tu allan i Westy'r Harbwr yn griw gwych ac wedi bod yn hynod gymwynasgar a chydweithredol. Maen nhw hefyd wedi bod yn rhoi llawer o wybodaeth i'r twristiaid sy'n gofyn cwestiynau cyson iddyn nhw."*

Gwesty'r Harbwr

*"Mae'r rhodd garedig gan BAM i'w chroesawu'n fawr a bydd yn cynnig modd i ni wneud mwy o blannu yn ardal Pwll Cam yn yr haf. Mae gwaith amddiffyn yr harbwr yn hollbwysig i ddyfodol Aberaeron."*

Rhodri Jones,
Maer Tref Aberaeron

*"Roedd cyflwyniad BAM yn wych, ac rwy'n siŵr bod pob disgybl wedi cael dealltwriaeth well o faes peirianneg, fel y gwnes innau'n sicr."*

Gyrfa Cymru

*"Rydym ni wrth ein bodd gyda'r gefnogaeth y mae BAM wedi'i rhoi i'r ysgol hyd yn hyn. Heb ofyn, rydym ni wedi cael meinciau picnic newydd yn lle'r rhai oedd wedi torri, ac maen nhw hefyd wedi darparu tywod i ni lenwi tyllau cwningod fel bod gennym ni ddiwrnod mabolgampau mwy diogel!*

*Maen nhw hefyd wedi dod i'n gweld ni yn yr ysgol ac wedi cynnal cystadleuaeth creu poster a rhoi cyflwyniad i'r plant yn yr ysgol.*

*Teimlwn fod gennym ni berthynas ardderchog gyda'r cwmni ac mae'r holl staff sy'n pasio'r ysgol yn gwrtais ac yn dangos parch."*

Ysgol Gynradd Aberaeron

*"Hoffwn i ddiolch i BAM a'u tîm o weithwyr am eu hamynedd a'u cefnogaeth gyda thenantiaid Penrodyn. Maen nhw wedi cymryd amser i ymgysylltu â'r tenantiaid ac egluro beth sy'n digwydd y tu allan i'w drysau ffrynt nhw, ac maen nhw wedi delio ag unrhyw broblemau yn syth. Maen nhw'n llysgenhadon gwych ar gyfer eich cwmni."*

Cartref Preswyl Penrodyn



# Buddion ac Ymgysylltu â’r Gymuned

Mae BAM wedi ymrwymo i gefnogi'r gymuned leol ac wedi noddi llawer o ddigwyddiadau lleol a chlybiau chwaraeon yn Aberaeron.




*Cafodd Cyngor Tref Aberaeron rodd gan BAM ar gyfer y cafnau planhigion yn Harbwr Pwll Cam*



*Rhodd BAM tuag at gynhyrchiad ‘Sêr Aeron’ 2024 Sister Act Jr*

*Rhoddodd BAM ddwy fainc bicnic bren i Gyngor Ysgol Gynradd Aberaeron*










*Rhoddodd BAM ddau gafn planhigion pren i drigolion Cartref Preswyl Penrodyn.*

*Roedd grŵp o weithwyr BAM wedi gwirfoddoli i godi sbwriel yn nhref Aberaeron a’r cyffiniau yn ddiweddar*







# Cwrdd â'r tîm

Fe wnaethom ni ofyn i rai o'r tîm sy'n gweithio ar Amddiffyn Arfordir Aberaeron sôn wrthym am eu tasgau arferol bob dydd.



- Cyswllt â Chleientiaid.
- Adnoddau staff i sicrhau cyflawni prosiect rhagorol.
- Datblygu staff i sicrhau bod gennym ni'r tîm sy'n perfformio orau.
- Trosolwg o berfformiad y prosiect gan gynnwys diogelwch, llesiant a'r amgylchedd.



## Nathan Bayliss - Rheolwr yr Iard

- Rheoli'r storfeydd a'r offer ar y safle.
- Rheoli'r offer a'r peiriannau ar y safle.
- Cydlynu'r holl gyflenwadau i'r safle.



## Ben Kneeshaw - Peiriannydd Safle

- Gosod y gwaith prosiect yn unol â chynlluniau a manylebau.
- Arolygu seilwaith newydd a phresennol ar gyfer dylunio a chofnodion.
- Monitro ansawdd y gwaith a chadw cofnodion ansawdd.
- Cynhyrchu datganiadau dull ac asesiadau risg ar gyfer. gweithrediadau safle.



## Andy Pointon-Bell - Rheolwr Prosiect

- Sicrhau bod yr adnoddau, goruchwyliaeth a chyfleusterau priodol yn eu lle i wneud ein gwaith yn ddiogel, a lleihau'r effaith ar y cyhoedd a'r amgylchedd yr un pryd.
- Trefnu ein gweithgareddau mewn dilyniant i wneud y gwaith ar amser, o fewn cyfyngiadau'r safle.
- Canfod datrysiadau peirianyddol cost-effeithiol ar gyfer problemau adeiladu.
- Nodi cyfleoedd i'r tîm barhau i ddatblygu eu sgiliau.




## Martin Davies - Is-asiant

- Rheoli'r cam adeiladu i gyflawni'r prosiect gofynnol.
- Rhyngwyneb cleientiaid ac ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill lle bo angen.
- Sicrhau cynhyrchu a gweithredu Cynlluniau Prosiect, Cynlluniau Gweithgareddau a Chynlluniau Prawf Archwilio yn unol â gweithdrefnau'r cwmni.




## Oriel Adeiladu



Bad – Selina yn dadlwytho'r arfwisg gerrig o'r bad



Golwg o'r awyr o Draeth y De gyda'r stoc cerrig dros dro a'r ffordd fynediad






Pen Cei – growtio wal yr harbwr




Pier y Gogledd – adeiladu'r morglawdd



Afon Aeron – gosod trawst capio concrit




Traeth y De – gosod geotecs o dan y gosodiad cerrig

** Ffotograffydd Andrew Chittock*

# EIN TÎM

**Rheolwr Contractau**
Ray Jones

**Rheolwr Prosiect**
Andrew Pointon-Bell

**Syrfëwr Meintiau**
Abby Davies

**Rheolwr Gwaith**
Keith Hughes

**Fforman Cyffredinol**
Damion Hopkins

**Asiant Safle**
Emyr Thomas

**Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd**
Gwen Clements

**Cynghorydd Amgylcheddol**
John Clancy

# EIN PARTNERIAID

**Cyngor Sir Ceredigion:**

**Rheolwr Prosiect**
Alan Haird

**AtkinsRéalis Design Consultancy:**

**Rheolwr Prosiect**
Steffan Davies

**Rheolwr Dylunio**
Matthew Tierney

## BAM ydym ni

Rydym yn dychmygu, yn creu ac yn cyfoethogi adeiladau a seilwaith ar draws y DU ac Iwerddon. Ers dros 150 o flynyddoedd, rydym wedi ymrwymo i wella bywydau trwy greu amgylcheddau a chymunedau cynaliadwy lle y gall pobl fyw, gweithio a ffynnu.

Ein gweledigaeth yw adeiladu dyfodol cynaliadwy. Dyna pam rydyn ni'n meddwl y tu hwnt i'r adeiladu ac yn canolbwyntio ar yr effaith fwy. Dyma sut rydym yn gwneud yr adeiladau a'r seilwaith eiconig sy'n llunio ein cymdeithas.

Yn ein hymgais diflino i wella, rydym yn gweithio ar y cyd â'n partneriaid i ddatgloi'r hyn sy'n bosibl, gyda'n gilydd. Mae hyn oherwydd ein bod yn credu mewn gweithredu, nid geiriau.

A dyna pam rydym ar genhadaeth i'w gwneud yn bosibl.

## Amgylchedd a chymuned

Trwy fabwysiadu agwedd gyfrifol a rhagweithiol at faterion amgylcheddol, mae BAM wedi ymrwymo i leihau effeithiau niweidiol posibl ei weithgareddau busnes ar yr amgylchedd a chyfrannu at ddatblygu cynaliadwy trwy gydbwyso ei amcanion busnes ac ystyriaethau amgylcheddol. Bydd BAM yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a gofynion eraill y mae'n ymrwymo iddynt, lle bo hynny'n bosibl, mewn perthynas â'i agweddau amgylcheddol a chynnwys cymunedau yn y prosiect.

## Adeiladwyr Ystyriol

Mae pob safle BAM yn cofrestru gyda'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi ymrwymo i fod yn gymydog da ac i fod yn lân, yn barchus, yn ddiogel, yn ymwybodol o'r amgylchedd, yn gyfrifol ac yn atebol. Mae ein safle yn cael ei archwilio'n annibynnol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r nodau hyn.

Rydym yn ceisio gweithio mewn ffordd sy'n achosi cyn lleied o anghyfleustra â phosibl i'n cymdogion. Ymddiheurwn am unrhyw niwsans a allai gael ei achosi yn ystod y gwaith na ellir ei osgoi.

## Cysylltu â Ni

Ein bwriad yw cwblhau'r gwaith hwn heb fawr o amharu. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â'n Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd sydd ar gael i helpu.

**Gwen Clements:**

**07585 633799** **Aberaeron.plo@bam.com**

Gallwch gofrestru ar gyfer diweddariadau ebost trwy ebostio aberaeron.plo@bam.com a chadarnhau yr hoffech dderbyn diweddariadau a chopi o gylchlythyrau yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am BAM:

Sganiwch yma

